



Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

# Mynediad i Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf Adolygiad o'r Farchnad Agored – Cais am Wybodaeth

Dyddiad cyhoeddi: 5 Ionawr 2017  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 3 Chwefror 2017

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.  
This document is also available in English..

## Trosolwg

Diben yr Adolygiad o'r Farchnad Agored (OMR) hwn a'r ymgynghoriad cysylltiedig yw cael cadarnhad o'r adeiladau yng Nghymru lle nad oes seilwaith i roi mynediad i i Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf (NGA) sy'n cynnig cyflymder o 30Mbps o leiaf, neu lle nad oes cynlluniau i ddarparu seilwaith o'r fath yn ystod y tair blynedd nesaf.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn caniatáu i gwmnïau telathrebu, ac unrhyw randdeiliaid eraill sydd â diddordeb i roi gwybodaeth am eu cynlluniau ac i roi sylwadau ar y mapio o adeiladau du / llwyd a gwyn sy'n seiliedig ar yr wybodaeth honno.

Bydd yr ymarferiad OMR hwn yn cael ei ddefnyddio fel sail i broses gaffael gan Lywodraeth Cymru i roi sylw i'r adeiladau gwyn a amlygwyd yn sgil yr OMR. Nod Llywodraeth Cymru yw ehangu argaeledd band eang cyflym iawn ledled Cymru.

## Sut i ymateb

Anfonwch e-bost i [OMR@wales.gsi.gov.uk](mailto:OMR@wales.gsi.gov.uk) wedi'i farcio "Ymateb i'r Adolygiad o'r Farchnad Agored" fel y disgrifiwyd yn Adran 5 a 6.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Mae copi o'r ddogfen hon ar gael mewn Braille ac ieithoedd eraill ar gais.**

Bydd set ddata o adeiladau yng Nghymru ar gael i'r gweithredwyr hynny sy'n cofrestru i ymateb, ar ôl llofnodi'r telerau trwyddedu cysylltiedig.

Mae Map Rhyngweithiol o faint yr ardal dan sylw ar gael yn y lleoliad canlynol:

[Map](#)

## Manylion cyswllt

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y broses Adolygiad o'r Farchnad Agored Cymorth Gwladwriaethol hon, cysylltwch â thîm yr OMR trwy anfon e-bost i:

[OMR@wales.gsi.gov.uk](mailto:OMR@wales.gsi.gov.uk)

## Diogelu Data

Sut y defnyddir y sylwadau a'r wybodaeth a gawn gennych

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhwch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth nad yw wedi'i chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd yn rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, weithiau mae'n bosibl fod rhesymau pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Llywodraeth Cymru – Adolygiad o'r Farchnad Agored

### 1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar y rhaglen 'Cyflymu Cymru' i ddatblygu seilwaith band eang cyflym iawn ledled y wlad ac a fydd yn hybu'r broses fasnachol i gyflwyno band eang ffibr cyflym i 96% o gartrefi a busnes Cymru erbyn 2017. Mae hwn yn fuddsoddiad sylweddol mewn seilwaith a fydd yn cymryd tua thair blynedd i'w gwblhau. Bydd cyflwyno seilwaith band eang cyflym mewn ardaloedd gwledig ar y fath raddfa'n dasg beirianyddol enfawr – bydd y rhaglen yn defnyddio tua 3,000 o gabinetau band eang ffibr newydd i ddod â band eang cyflym iawn i Gymru. Disgwylir y bydd Cyflymu Cymru yn trawsnewid y ddarpariaeth fand eang yng Nghymru ac yn hybu twf economaidd a swyddi cynaliadwy yng Nghymru.

Disgwylir y bydd y rhaglen Cyflymu Cymru gyfredol yn dod i ben ym mis Mehefin 2017, a bydd yn golygu y bydd Band Eang Cyflym iawn ar gael mewn nifer sylweddol o adeiladau ledled Cymru. Rhoddir sylw i'r ychydig ganrannau o'r adeiladau cymwys sy'n weddill trwy gam pellach o weithgarwch. Mae Llywodraeth Cymru felly wedi ymgymryd i gynnal Adolygiad o'r Farchnad Agored (OMR). Nod yr OMR hwn yw helpu Llywodraeth Cymru i ddeall lle mae buddsoddiad gan y sector preifat yn rhwydweithiau band eang y genhedlaeth nesaf wedi digwydd eisoes yng Nghymru, lle mae'n digwydd ar hyn o bryd a lle mae wedi'i gynllunio ar gyfer y tair blynedd nesaf. Bydd yr wybodaeth a gesglir yn helpu Llywodraeth Cymru i benderfynu, yn absenoldeb buddsoddiad gan y sector preifat, ble dylid canolbwyntio gweithgarwch Cyflymu Cymru i sicrhau darpariaeth ar gyfer yr ychydig ganrannau o adeiladau cymwys sy'n weddill.

### 2. Cwmpas Daearyddol

Mae cwmpas y cais am wybodaeth hwn yn cynnwys Cymru gyfan. Er mwyn i chi allu darparu gwybodaeth byddwn yn gofyn i chi nodi pa ardaloedd daearyddol o Gymru yr ydych yn eu cynnwys neu'n bwriadu eu cynnwys. Ar ôl i ni gael yr wybodaeth hon, ac ar ôl i chi lofnodi'r Cytundeb Trwyddedu gofynnol, byddwn yn anfon set ddata UPRN lefel adeiladu atoch er mwyn eich galluogi i ymateb.

Daw'r data adeiladau o AddressBase Premium EPOCH 45 (17/11/16). Dangosir map o'r ardal hon yn y ddolen ganlynol:

[Map](#)

### 3. Cynnydd a wnaethpwyd hyd yma

Cafodd contract Cyflymu Cymru i gyflenwi band cyflym iawn i ardal ymyrryd ddiffiniedig ei ddyfarnu i British Telecommunications (BT) ar 19 Gorffennaf 2012 gyda chyllid cyhoeddus gyda chymeradwyaeth Cymorth Gwladwriaethol o £205m. Yn dilyn ei hymgyngoriad cyhoeddus diweddaraf rhwng 3 Mehefin a 3 Gorffennaf 2014, cafodd y

contract â BT ei ymestyn gan Lywodraeth Cymru i gynnwys ardal ymyrryd ddiffiniedig arall gyda chyllid cyhoeddus gyda chymeradwyaeth Cymorth Gwladwriaethol o £19.4m.

Mae Cyflymu Cymru yn cynnwys Ardal Ymyrryd o tua 767,000 o adeiladau a aseswyd fel bod y tu allan i gwmpas buddsoddiad masnachol arferol mewn band eang y genhedlaeth nesaf trwy broses adolygiad o'r farchnad agored. Nod y £225m a ddyfarnwyd hyd yma yw sicrhau gwasanaeth band eang cyflym iawn i o leiaf 90% o'r Ardal Ymyrryd erbyn Mehefin 2017 ac sy'n unol â thargedau Llywodraeth y DU. Mae Llywodraeth Cymru am weld cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth band eang cyflym iawn erbyn diwedd 2022 trwy broses caffael newydd, sydd i'w chadarnhau yn 2017.

Rydym wedi dyrannu hyd at £200m o arian cyhoeddus ychwanegol sy'n cynnwys cyfraniadau gan Lywodraeth Cymru, BDUK, yr UE ac Awdurdodau Lleol a bydd manylion am y rhain ac unrhyw gyfyngiadau ar y defnydd ohonynt yn cael eu hegluro yn nogfennaeth ein tendr arfaethedig. Bwriad Llywodraeth Cymru felly yw caffael atebion Mynediad i Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf – rhai a fydd yn gallu cyrraedd cyflymder lawrlwytho o 30 Mbps o leiaf – ar gyfer yr ardaloedd sy'n weddill yng nghwmpas Mynediad i Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf.

#### **4. Diben yr Adolygiad o'r Farchnad Agored hwn**

Fel rhan o'r broses gaffael newydd hon, rydym yn awr yn cynnal Adolygiad o'r Farchnad Agored i ganfod y ddarpariaeth fasnachol bresennol ac arfaethedig (y 3 blynedd nesaf) o wasanaethau band eang ledled Cymru gan bob darparwr seilwaith sy'n cynnig mynediad i fand eang y genhedlaeth nesaf.

Bwriedir i'r OMR ragflaenu dogfen ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol. Mae'r DU yn gweithredu proses arferion gorau sy'n hyrwyddo'r defnydd o OMR ac Ymgynghori Cyhoeddus, gyda'r olaf yn cael ei gynnal mewn ffordd sy'n gydnaws â gofynion Canllawiau Band Eang<sup>1</sup>. Rydym o'r farn bod ymgysylltu'n gynnar â'r farchnad yn ystod y cam hwn yn hanfodol ac yn rhan bwysig dros ben o'n hymchwil gynnar i'r farchnad. Bydd canlyniadau'r Adolygiad yn ein helpu i ddeall y seilwaith band eang (Mynediad i'r Genhedlaeth Nesaf (NGA)) sydd ar gael eisoes ac i ganfod beth yw'r cynlluniau ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith o'r fath yn ystod y tair blynedd nesaf ac fel cam pwysig i ddylunio'r ardal ymyrryd a fydd yn cael ei thargedu gan y contract newydd.

Ar ôl i ni ddiffinio'r Ardaloedd Ymyrryd hyn yn dilyn yr Adolygiad, byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus Cymorth Gwladwriaethol a

---

<sup>1</sup> Canllawiau Cymunedol ar gyfer gweithredu rheolau Cymorth Gwladwriaethol yn achos rhwydweithiau band eang  
<http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:C:2013:025:0001:0026:EN:PDF>

fydd yn para mis o leiaf ar ein Hardaloedd Ymyrryd arfaethedig. Rydym yn bwriadu lansio ein ITT yn 2017.

## **5. Mae Angen eich Ymateb**

Rydym yn anfon yr Adolygiad hwn at bob darparwr seilwaith band eang a rhyngwyd cydnabyddedig yng Nghymru. Hefyd, rydym yn cyhoeddi dogfen yr Adolygiad hwn ar ein gwefan.

Mae angen ymatebion i'r cwestiynau a ofynnir yn yr Atodiad erbyn Chwefror 3 2017. Wrth ymateb, byddem yn ddiolchgar pe byddech yn cadarnhau enw a chyfeiriad eich sefydliad, yn ogystal ag enw, swydd a manylion cyswllt yr unigolyn sy'n ymateb ar ran y sefydliad.

## **6. Darparu Gwybodaeth**

Bydd Templed Ymateb yr Adolygiad yn cael ei ryddhau i ddarparwyr pan fyddant wedi llofnodi'r Drwydded Defnyddiwr Sector Cyhoeddus, sydd ar gael ym Mhorth Ymgynghori OMR Llywodraeth Cymru, a'i ddychwelyd i [OMR@wales.gsi.gov.uk](mailto:OMR@wales.gsi.gov.uk)

Cyn i ni ryddhau'r templed, gofynnir i chi'n gyntaf nodi'r ardaloedd daearyddol yng Nghymru rydych yn eu cynnwys neu'n bwriadu eu cynnwys – gan nodi'r Ardaloedd Awdurdod Lleol perthnasol. Byddwn wedyn yn anfon fersiwn o'r Templed Ymateb i'r OMR sydd wedi'i lunio'n bwrpasol ar gyfer yr ardaloedd penodol hyn.

Noder y bydd y data a roddir gennych chi yn eich ymateb yn cael ei drin fel gwybodaeth sy'n gyfrinachol yn fasnachol i Lywodraeth Cymru, er y gellir rhannu peth / yr holl ddata yn eich ymateb â'n cynghorwyr proffesiynol a/neu DCMS/BDUK, Ofcom, Isadran BIS Cymorth Gwladwriaethol a'r Comisiwn Ewropeaidd wrth geisio cael Cymorth Gwladwriaethol. Dylid nodi hefyd ei fod yn un o ofynion Cymorth Gwladwriaethol i ddefnyddio'r wybodaeth hon i gynhyrchu mapiau Cymorth Gwladwriaethol i ddiffinio ardaloedd gwyn, llwyd a du ar gyfer band eang sylfaenol a'r Genhedlaeth Nesaf. Bydd y mapiau hyn yn cael eu cyhoeddi fel rhan o'r broses Ymgynghori Cyhoeddus a byddant yn cael eu defnyddio i ddiffinio'r ardal ymyrryd. Fodd bynnag, dylech nodi y bydd y mapiau cyhoeddedig hyn yn cael eu cymhathu gan ddefnyddio data gan bob gweithredwr perthnasol ac ni fyddant yn cael eu priodoli'n uniongyrchol i un ffynhonnell.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynglŷn ag unrhyw rai o'r uchod, cysylltwch ag [OMR@wales.gsi.gov.uk](mailto:OMR@wales.gsi.gov.uk).

## **7. Cyfeiriad Porth Ymgynghori Adolygiad o'r Farchnad Agored Llywodraeth Cymru**

<https://ymgynghoriadau.llyw.cymru/ymgynghoriadau/mynediad-fand-eang-y-genhedlaeth-nesaf-adolygiad-or-farchnad-agored>

## Atodiad

**1. Rhowch fanylion a thystiolaeth ategol am unrhyw fuddsoddiad presennol neu arfaethedig mewn seilwaith band eang (band eang sylfaenol a band eang y Genhedlaeth Nesaf) yng Nghymru. Yn achos buddsoddiad arfaethedig, mae gennym ddiddordeb arbennig mewn cynlluniau ar gyfer y tair blynedd nesaf (hyd at fis Rhagfyr 2019). Yn ychwanegol at gwblhau templed taenlen (neu yn hytrach na'r daenlen os na allwch roi'r wybodaeth ar ffurf y templed gofynnol), dylai unrhyw wybodaeth a roddir mewn ymateb i'r cais hwn gynnwys ond heb ei gyfyngu i:**

- Manylion adeiladau ar gyfer band eang sylfaenol a band eang y Genhedlaeth Nesaf gan ddangos y gwasanaeth presennol a mapiau ar wahân sy'n dangos y buddsoddiad sydd wedi'i gynllunio yn y rhwydweithiau seilwaith band eang sylfaenol a'r Genhedlaeth Nesaf ar gyfer y tair blynedd nesaf o leiaf;
- Manylion manwl am yr adeiladau sydd wedi'u pasio neu eu cynnwys, gan gynnwys gwybodaeth am nifer yr adeiladau wedi'u pasio (yn achos rhwydwaith sefydlog) neu wedi'u cynnwys ac sy'n gallu derbyn gwasanaethau (yn achos rhwydwaith diwifr / lloeren);
- Manylion am y dechnoleg ac os yw'r rhain yn honni eu bod yn dechnoleg y Genhedlaeth Nesaf, dylid dangos sut maent yn cyrraedd y safonau sylfaenol fel sydd wedi'u nodi yng Nghanllawiau Technoleg BDUK<sup>2</sup>
- Disgrifiad o'r gwasanaethau / cynnyrch sy'n cael eu cynnig yn awr a hefyd, ar wahân, y rhai a fydd yn cael eu cynnig o fewn y 3 blynedd nesaf;
- Tariffau gosod a rhentu ar gyfer y gwasanaethau / cynnyrch hynny gan nodi'n eglur a ydynt yn cynnwys TAW ai peidio;
- Cyflymder uwchlwytho a lawrlwytho arferol a brofir gan ddefnyddwyr;
- Dangosyddion priodol o ansawdd y gwasanaeth e.e. cymarebau cystadlu, lled band a ddyrennir i bob defnyddiwr etc;
- Tystiolaeth i gadarnhau honiadau o'r union wasanaeth neu wasanaeth arfaethedig gan gynnwys achosion busnes a thystiolaeth o'r cyllid sydd ar gael i wireddu cynlluniau.

---

2

[https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/236341/NGA\\_Technology\\_Guidelines\\_300813.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/236341/NGA_Technology_Guidelines_300813.pdf).

Ceir enghraifft yn <https://www.gov.uk/government/publications/2016-nbs-tech-guidelines>

- Manylion ac amserlenni sy'n dangos pryd y byddwch yn buddsoddi yn y dyfodol; a
- Chadarnhad gan lofnodai awdurdodedig fod cywirdeb yr holl wybodaeth a roddir yn addas.

Dylech gynnwys tystiolaeth ategol fel y tybiwch sy'n briodol e.e. gwefannau cyhoeddus.

Diolch yn fawr,

**Llywodraeth Cymru**